Mentora Amlieithog
Multilingual Mentoring

## Das Geheimnis des original Wiener Schnitzels

Cwblhewch y gweithgareddau paratoi canlynol yna gwyliwch y fideo a chwblhewch y cwis rhyngweithiol – MWYNHEWCH!

1. **Mae'r geiriau canlynol yn ymddangos yn y clip fideo, chwiliwch eu hystyr mewn geiriadur: *cofiwch fod gan rai geiriau <u>mwy nag 1 ystyr</u> felly cofnodwch y rhai sydd fwyaf addas i thema'r fideo**

    - knusprig
    - baden
    - Wiener
    - fett
    - das Kalb (n) (Fleisch)
    - klopfen
    - glatt
    - der Brösel (m)
    - ungefähr
    - ei
    - drücken
    - fettig
    - (sich) umdrehen
    - raus

2. **Mae'r 3 brawddeg Almaeneg canlynol yn defnyddio rhai o'r geiriau o'r dasg gyntaf. Cyfieithwch nhw i'r Gymraeg.**

    - Es ist ganz wichtig, dass ein Wiener Schnitzel nicht fettig, sondern knusprig ist.
    - Ein gutes Schnitzel ist immer knusprig und nach dem Klopfen ungefähr drei Millimeter dick.
    - Kannst du die Tafel gut sehen? Nein? Dann dreh dich bitte um!

3. **Mae'r 3 brawddeg Gymraeg ganlynol yn defnyddio rhai o'r geiriau o'r dasg gyntaf. Cyfieithwch y brawddegau i'r Almaeneg.**

- Pan mae'r schnitzel yn y saim (fat), rhaid ei droi drosodd
- Dylai'r schnitzel gael ei goginio am ryw 10 munud
- Mae'n bwysig gwasgu'r schnitzel mewn i flawd mân a briwsion bara

## Gramadeg:

A oedd yr Almaeneg yn y fideo yn swnio yn wahanol i chi? Mae Jürgen sy'n ymddangos yn y fideo yn dod o Awstria. Er eu bod nhw'n siarad Almaeneg yn Awstria, weithiau maen nhw'n defyddio geiriau gwahanol am rai pethau ac mae eu hacenion nhw'n wahanol.  Gallwn gymharu hyn gyda sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru gan fod acen y gogledd yn wahanol i acen y de a hefyd weithiau rydyn ni'n defnyddio geiriau gwahanol i ddisgrifio'r un peth, e.e. yn y de rydyn ni'n dweud llaeth ac yn y gogledd rydyn ni'n dweud llefrith.

Isod fe welwch chi esiamplau o eiriau sy'n cael eu defnyddio yn Awstria:

- Erdapfel (Kartoffel)
- Sevus/ Grüβ Gott (Hallo/ Guten Tag)
- Mahlzeit (Guten Appetit)

Cofiwch gallwch chi ddefnyddio'r gair **<u>man</u>** yn Almaeneg (peidiwch â'i chymysgu gyda **<u>Mann</u>**) i ffurfio brawddeg amhersonol. Dyma esiampl o frawddeg amhersonol Saesneg:

'**<u>you can</u>** do something…' neu '**<u>one can</u>** do something…'

Byddwch yn ei ddefnyddio os ydych yn dymuno gwneud datganiad cyffredinol yn hytrach na sôn am rywun penodol. Mae'n cael ei ffurfio yn yr un modd a **<u>er, sie</u>** <u>a</u> **<u>es</u>**.

- In Österreich kann man Schnitzel essen.
- In Deutschland kann man immer Bratwurst finden.